



Cynhyrchu twrcïod ar raddfa fach

Yn y rhifyn hwn:

Cyfres o weithdai CALU ar blaleiddiaid	2
Digwyddiadau CALU yn ymwneud â Thatws	2
Lafant yn Henfaes	3
Crwyn geifr	3
Digwyddiad ynni adnewyddadwy – 7 Hydref	3
Digwyddiadau i Ddod	4
Ffeithiau am CALU	4

Ers ychydig flynyddoedd, bu cynnydd yn y galw am dwrcïod Nadolig o ansawdd uchel sydd wedi'u magu trwy ddulliau traddodiadol.

Gall cynhyrchu twrcïod yn dymhorol fod yn gyfle gwych i ffermwyr ychwanegu at eu hincwm, ond nid yw'n opsiwn hawdd.

Mae cynnyrch twrcïod yn y DU ar drai ers mwy na degawd. Ym 1996, cynhyrchwyd mwy na 38 miliwn o adar yn y DU. Erbyn 2007, roedd y nifer hon wedi gostwng i lai na 15 miliwn. Yn ystod yr un cyfnod, bu pobl yn bwyta twrcïod ar fwy neu lai'r un lefel; dengys hyn fod cynhyrchwyr o fewn y DU yn colli eu rhan o'r farchnad.

I gael y prisiau gorau, mae angen i gynhyrchwyr ar raddfa fach ddefnyddio bridiau traddodiadol



Ffynhonnell: Red Poll

Twrci du Norfolk

o adar (e.e. bronze neu Norfolk black). Mae'r adar hyn yn tyfu'n arafach a'u cig yn fwy blasus na'r adar amgen a ddefnyddir mewn systemau masnachol. Mae'r adar yn cymryd rhyw 6 mis i gyrraedd pwysau lladd. Felly, mae angen cynllunio'n gynnar.

Mae CALU wedi llunio taflen ffeithiau newydd sy'n rhoi cyflwyniad byr ar gynhyrchu dofednod ar raddfa fach. Gellwch lawrlwytho copiâu am ddim o'r wefan – www.calu.bangor.ac.uk

Ceir rheoliadau caeth ynglŷn â lladd da byw i'w gwerthu; mae angen i ddarpar-gynhyrchwyr sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r rhain ac yn ufuddhau iddynt.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r gofynion ar gyfer lladd cyfreithlon a thrugarog, cysylltwch â'r Humane Slaughter Association (HSA) yn info@hsa.org.uk neu ffoniwch 01582 831919. Mae HSA hefyd yn cynnal cyrsiau ymarferol ar ladd dofednod.

CALU's subject areas:

- Garddwriaeth
- Bio-egni
- Da Byw Amgen
- Cnydau Âr
- Cnydau nad ydynt yn rhai bwyd

Ffair Masnach Garddwriaeth Addurniadol Four Oaks

Eleni, cynhaliwyd Ffair Masnach Garddwriaeth Addurniadol Four Oaks ar 2 a 3 Medi. Fel arfer, roedd y digwyddiad wedi'i drefnu'n ofalus iawn a daeth llawer o bobl iddo, er gwaetha'r tywydd newidiol.

Buom yn sylwi ar rai eitemau o ddiddordeb arbennig, yn cynnwys:

- Arddangosiad Talbott o fwyleri biomas yn gweithio ar danwydd asglodion (www.talbotts.co.uk);
- Cynhyrchion Botanicoir o risgl coconyt cywasgedig (www.botanicoir.com);

- Taenfa Strulch wedi'i gwneud o wellt (www.strulch.co.uk);
- Mycorrhizal Systems Ltd yn hyrwyddo cynnyrch cloron i'w coginio (www.plantationsystems.com);
- Cwmni Aston Horticulture a'i dewis o gynhyrchion, sy'n seiliedig ar arleg ac ar echdynion naturiol eraill, i amddiffyn planhigion (www.astonhorticulture.com)

Cyfres o weithdai CALU ar blaleiddiaid

Mae defnydd priodol a diogel ar blaleiddiaid yn hanfodol. Fodd bynnag, gall y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â defnyddio a storio plaleiddiaid ymddangos yn hynod o astrus. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y rhai sy'n arall gyfeirio i gynhyrchu cynydu newydd – yn enwedig cynydu bwytadwy.

I helpu ffermwyr a thyfwyr i wybod am yr hyn y dylent ei wneud a phheidio â'i wneud, mae CALU yn cynnal cyfres o weithdai ar ffermydd, yn ymwneud â defnyddio, storio a gwaredu plaleiddiaid yn ddiogel.

Arbenigwyr CALU ym maes garddwriaeth, sef Chris Creed ac Aldwyn Clarke o ADAS Wales, fydd yn arwain y gweithdai. Bydd y diwrnod yn cyfuno elfennau ymarferol ag elfennau theoretig. Bydd y wybodaeth a ddysgir ar y diwrnod yn amhrisiadwy i unrhyw ffermwyr neu dyfwyr sy'n ystyried ymuno ag un o'r Cynlluniau cydnabyddedig er Sicrhau Ansawdd.

Bydd y rhai sy'n mynd ar y cyrsiau yn derbyn gwybodaeth ategol o amrywiaeth eang o ffynonellau, yn cynnwys y Fenter Wirfoddol, Defra a Llywodraeth y Cynulliad.

Cynhelir y gweithdai mewn chwe lleoliad gwahanol ar draws Cymru rhwng Hydref 2008 a Chwefror 2009. Bydd cyfranogwyr yn gallu casglu pwyntiau NROSO a/neu BASIS CPD am eu presenoldeb.

Cynhelir y digwyddiad cyntaf yng Nghanolfan Ymchwil CALU yn Henfaes, Abergwyngregyn ym mis Tachwedd 17ain.

Mae'r digwyddiadau yn derbyn nawdd llawn trwy Farming Connect, felly ni chodir tâl ar y rhai sy'n mynd iddynt.

Am fwy o wybodaeth am gynnwys y cwrs, ei ddyddiadau a'i leoliadau, neu i archebu eich lle, cysylltwch â ni.

OEDDECH CHI'N GWYBOD...

Ers 2008, mae'r Cynllun Taliadau Sengl wedi'i ehangu i gynnwys amrywiaeth eang o lysiau a ffrwythau. Bydd y rhai sydd eisoes yn hawlio Tâl Sengl yn gymwys o 2008; bydd gan dyfwyr nad ydynt wedi hawlio o'r blaen hawl i gael tâl o 2010 ymlaen. 31 Rhagfyr 2008 yw'r dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau.

Digwyddiadau CALU yn ymwneud â Thatws

Ar 10 Gorffennaf, cynhaliodd Emlyn Williams ddiwyddiad cyntaf y flwyddyn yn ymwneud â thatws, yn canolbwyntio ar gynhyrchu hadau yng Nghymru. Ar ôl y digwyddiad llwyddiannus hwn, cynhaliwyd diwrnod agored blynyddol CALU ac Ymddiriedolaeth Ymchwil Sárvari yn Henfaes ar 15 Awst. Daeth nifer dda – mwy na 50 o westeion – i'r digwyddiad.

Ar ôl bore o sgrysiu, roedd y rhai a oedd yn bresennol yn falch o fwyta eu cinio o sglodion a oedd wedi'u gwneud o fathau Will a Mira, a saladau tatws wedi'u gwneud o fathau Kifi ac Una.

Cynhaliwyd y diwrnod agored nesaf ar thema tatws ym Medi. Bu Ashley Hope o Gilfach y Frân mor garedig ag agor ei fferm a'i gaeau fel y gellir archwilio ei gnydau'n fanwl.

Ac yntau wedi dechrau tyfu tatws yn gymharol ddiweddar, mae wedi cael budd o arweiniad a chefnogaeth y grŵp tyfwyr tatws yng Ngheredigion. Mae Mr Hope wedi plannu tatws Sárpo Mira, Home Guard a Desirée. Roedd Aldwyn Clarke, cynghorwr Garddwriaeth i CALU ac Uwch Swyddog Gwyddonol gydag ADAS, ar gael yn ystod y prynhawn, i gynnig cymorth a chefnogaeth i unrhyw ffermwyr sy'n meddwl; dechrau tyfu tatws neu sydd eisoes yn tyfu tatws.



Edrych ar datws hadau Sárpo

I'r rhai ohonoch sydd â diddordeb mewn tyfu tatws, mae Thompson a Morgan ar hyn o bryd yn stocio Sárpo Mira ac Axona. Mae Ymddiriedolaeth Ymchwil Sárvari yn gobeithio ychwanegu'r mathau canlynol at y rhestr cyn hir:- Kifli, math prif gnwd cynnar ar gyfer salad, Adam Blue (math 'newydd' â chroen porffor prif gnwd cynnar), Will (taten wen o'r prif gnwd cynnar) ac Una (math cynnar â chroen pinc y gellir ei adael i dyfu'n swmpus ar gyfer pobwyr haf).

Lafant yn Henfaes

Yn ein newyddlen yn y gwanwyn, buom yn adrodd ar y project lafant sy'n cychwyn yn Henfaes.

Tyfodd y ddau fath (Hidcote a Munstead) yn dda, ar y cychwyn mewn potiau 9cm. Trawsblannwyd hwy i'w safle terfynol mewn cae tua dechrau Mehefin.

Cafwyd ychydig golledion dechreuol ar ôl eu trawsblannu – yn bennaf oherwydd cwningen a fentrodd i mewn i'r llain. Ers i'r gwningen gael ei hel oddi yno ac i'r ffens gael ei thrwsio, mae'r planhigion wedi ffynnu.


Rydym wedi cynhyrchu taflen ffeithiau, yn rhoi manylion am y

ddwy broses y buom yn eu defnyddio a'u costau cysylltiedig. Mae hon ar gael o'r wefan – www.calu.bangor.ac.uk.

Byddwn yn parhau i fonitro'r planhigion ac i adrodd arnynt yn ystod y tymhorau i ddod.

Rydym hefyd wrthi'n cael trafodaethau â'r Ysgol Cemeg yma ym Mhrifysgol Bangor, ac yn gobeithio cael dadansoddiadau ar y planhigion i ganfod a oes gwahaniaethau arwyddocaol yn y cynnyrch olew a'r ansawdd rhwng y ddau fath.

Hyd yma, ar wahân i wahaniaethau dechreuol yn y planhigion ar ôl eu derbyn gan y cynhyrchwyr, nid



Llain lafant CALU

ydym wedi sylwi ar unrhyw wahaniaethau arwyddocaol o ran twf y ddau fath.

OEDDECH CHI'N
GWYBOD ...

Defnyddir lafant yn ystafelloedd aros rhai deintyddfeydd i helpu cleifion i ymlacio.

Ffynhonnell: BBC

Crwyn geifr

Yn ddiweddar, mae nifer o gynhyrchwyr geifr wedi cysylltu â CALU ynglŷn â chrwyn geifr.

Gan fod crwyn geifr wedi'u dosbarthu fel is-gynnyrch anifeiliaidd, ceir rheoliadau llym ynglŷn â'u symud a'u trin.

Bydd angen i unrhyw gynhyrchwyr geifr sydd am ddod â'u crwyn yn ôl o'r lladd-dy wneud cais am Drwydded Gweithfeydd Hanner-

Ffordd gan Lywodraeth y Cynulliad.

I gael trwydded, bydd angen i gynhyrchwyr lenwi ffurflen (ar gael o wefan y Cynulliad <http://new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/ahw/animalbyproducts/waste/?lang=cy>); yna, bydd angen i filfeddyg o'r tîm lechyd Anifeiliaid archwilio'r adeiladau i sicrhau eu bod yn ateb y gofynion.

Yna, bydd y drwydded yn ddilys am 2 flynedd. Mae'r broses yn rhad ac am ddim.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch Swyddfa leol dros lechyd Anifeiliaid.

Caernarfon: 01286 674144

Caerfyrddin: 01267 245400

Caerdydd: 029 2076 8500

Digwyddiad ynni adnewyddadwy – 7 Hydref

Mae pawb yn ymwybodol o'r cynnydd ym mhris tanwydd, ac mae hyn wedi codi'r cwestiynau ynglŷn â'r hyn y gallwn ei wneud amdano.

Ar y cyd ag IBERS (y Sefydliad Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig), bydd CALU yn cynnal digwyddiad ar safle Plas Gogerddan yn Aberystwyth ar 7 Hydref. Bwriad y digwyddiad agored yw edrych ar rôl

cnydau ynni mewn ymgais i leihau costau ynni a darparu cyflenwad o ynni mwy cynaliadwy ar gyfer Cymru.

Yn ystod y dydd, ceir cyfle i edrych ar broiect Helyg i Gymru (<http://www.iger.bbsrc.ac.uk/Practice/WillowsforWales.htm>), mathau amgen o miscanthus, golwg ar laswellt fel cnwd ynni yn y dyfodol,

a bio-buro er mwyn cyrchu'r cemegau gwerthfawr a geir mewn glaswellt. Cyn cloi, ceir taith o gwmpas y lleiniau ar y safle.

Am fwy o wybodaeth, neu i gofrestru ar gyfer y digwyddiad, cysylltwch â CALU, 01248 680450 calu@bangor.ac.uk

CANOLFAN DEFNYDD TIR AMGEN

Canolfan Ymchwil Henfaes
Prifysgol Bangor
Abergwyngregyn
LLANFAIRFECHAN
LL33 0LB
Ffôn: 01248 680 450
Ffacs: 01248 681730
E-bost: calu@bangor.ac.uk

www.calu.bangor.ac.uk

Yn Cefnogi Defnyddio Tir yn Gynaliadwy



Digwyddiadau i Ddod

Dydd Mawrth, 30 Medi – Cyfarfod o Grŵp Trafod Tyfwyr Sir Benfro, Canolfan Arddio Penfro, Cosheston

Dydd Mercher, 1 Hydref – Cyfarfod o Grŵp Trafod Tyfwyr Sir Geredigion, Aberaeron

Dydd Mawrth, 7 Hydref – Mathau Adnewyddadwy o Ynni — digwyddiad Fferm Ddatblygu, IBERS, Plas Gogerddan

Dydd Iau, 23 Hydref – Cynhadledd Organig, Maes y Sioe Frenhinol, Llanfair-ym-Muallt

Dydd mawrth, 4 Tachwedd—Hybu magu moch yng Nghymru, Safle Glynllifon, Coleg Meirion-Dwyfor, Caernarfon

Dydd llun, 17 Tachwedd—Defnydd saff o blaladdwyr, Canolfan Ymchwil Henfaes, Gwynedd

Dydd Mercher 19 Tachwedd – Gweithdy — Adfer Perllannau, Fro Morgannwg

Dydd Mercher, 26 Tachwedd—Digwyddiad Fferm Datblygu, Coleg Garddwriaeth Cymru, Northop

Dydd Iau, 27 Tachwedd—Defnydd saff o blaladdwyr, Bellis Country Market, Holt, Wrexham

1 a 2 Rhagfyr – Ffair Aeaf y Sioe Frenhinol, dewch draw i stondin CALU i weld amrywiaeth eang gyfryngau cynnal twf; Llanfair-ym-Muallt

Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth am unrhyw rai o ddi-gwyddiadau CALU.

Ffeithiau am CALU

Mae CALU'n cyflwyno Rhaglen Datblygu Rheolaeth Tir Cyswllt Ffermio. Mae'r rhaglen yn rhoi gwybodaeth i unrhyw fusnes yng Nghymru sydd â diddordeb yn y canlynol:

- Garddwriaeth
- Bio-egni
- Da Byw Amgen
- Cnydau Âr
- Cnydau nad ydynt yn rhai bwyd


Mae gan CALU dri aelod staff parhaol a rhywdaith o arbenigwyr cysylltiedig sy'n ymdrin â'r holl feysydd yng nghylch gorchwyl CALU.

GWEITHGAREDDAU CALU:

- Dyddiau agored
- Arddangosiadau
- Tafenni technegol
- Dyddiau hyfforddi
- Erthyglau i'r wasg
- Tafenni gwybodaeth am gnydau
- Adroddiadau project
- Sgyrsiau
- Grwpiau cynhyrchwyr
- Sioeau amaethyddol
- llyfyrnau gwybodaeth

CALU PARTNER:

- Prifysgol Bangor
- Coleg Garddwriaeth Cymru
- ADAS Cymru
- Coed Cymru
- Coleg Llysfasi



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813